



---

# CFfi CYMRU WALES YFC

---

Diwrnod Chwaraeon  
Sports Day  
Y Drenewydd / Newtown

25ain o Fehefin 2017  
25th June 2017

Cystadlaethau a Rheolau  
Competitions and Rules



**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU  
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

**RHEOLAU 2016-2017 RULES**

**DIWRNOD CHWARAEON | SPORTS DAY**



## **CYNNWYS | CONTENTS**

<b>CYSTADLEUAETH   COMPETITION</b>	<b>RHIF TUDALEN   PAGE NUMBER</b>
ROWNDERI IAU - JUNIOR ROUNDERS	<b>3</b>
PÊL-DROED - FOOTBALL	<b>6</b>
PÊL-RWYD - NETBALL	<b>11</b>

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU  
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

**RHEOLAU 2016-2017 RULES**

**DIWRNOD CHWARAEON | SPORTS DAY**



**\* Nodwch os gwelwch yn dda bydd angen talu tâl ymgeisio o £25 cyn y 7fed o Fehefin. Ni chaniateir unrhyw ymgeisio hwyr. Dylai sieciau fod yn daladwy i CFFI Cymru a byddwn yn ad-dalu'r £25 os bydd y tîm yn troi fyny i gystadlu.**

**\* Please note an entry fee of £25 to be paid by the 7th of June. No late entries will be accepted. Cheques should be made payable to Wales YFC and they will only be refunded if the team turns up to compete.**

**ROWNDERI IAU CYMYSG  
JUNIOR MIXED ROUNDERS**

**LLEOLIAD**

Cynhelir y Rownd Derfynol mewn lleoliad sydd i'w gadarnhau, ddydd Sul y 25ain o Fehefin, 2017.

**CYNRYCHIOLAETH**

Un tîm o bob Ffederasiwn Sirol i gystadlu yn rownd derfynol Cymru.

**CYMHWYSTRA**

Sgwad o hyd at bymtheg o chwaraewyr, a bydd naw chwaraewr yn chwarae pob gêm. Rhaid i bob chwaraewr fod yn aelod llawn o Glwb CFFI yng Nghymru sy'n gysylltiedig â CFFI Cymru neu FfCCFFI.

Rhaid i holl aelodau'r sgwad fod yn 16 neu'n iau ar y 1af o Fedi 2016 (rhaid cadw at yr ystod oedran hwn).

Golyga hyn fod rhaid i gystadleuwyr fod wedi cael eu pen-blwydd yn 10 oed cyn diwrnod y gystadleuaeth ond gall rhai aelodau fod yn 17 ar ddiwrnod rownd derfynol Cymru.

Bydd angen i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth.

Bydd methu dangos cerdyn aelodaeth dilys (yn cynnwys llun) yn arwain at gosb ariannol o £10. Ni chaniateir i aelod gystadlu os nad yw ef/hi wedi'i restru fel aelod sydd wedi talu arian aelodaeth ac os na fydd yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth.

**VENUE**

The Final will be held at a venue to be confirmed on Sunday, 25th June, 2017.

**REPRESENTATION**

Counties may enter one team for the Wales final.

**ELIGIBILITY**

A squad of fifteen players (maximum), from whom 9 players shall be chosen to form the team for each game. All competitors must be full members of a YFC Club based in Wales and affiliated to either Wales YFC or NFYFC.

All squad members must be aged 16 and under on 1st September 2016 (this age range must be adhered to).

This means competitors must have attained their 10th birthday on the day of the competition but may be 17 on the day of the Wales final.

Competitors will be required to show their membership cards.

Failure to produce a valid membership card (with photo) will result in a £10 penalty charge. Any member whose name is not listed as a current paid up member of the Federation and who cannot produce a membership card at the start of the competition will not be allowed to compete.

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU  
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

**RHEOLAU 2016-2017 RULES**

**DIWRNOD CHWARAEON | SPORTS DAY**



**EILYDDIO**

Os bydd saith (7) neu ragor o aelodau'r sgwad gwreiddiol yn methu mynd ymlaen i'r rowndiau dilynol, bydd y tîm sydd yn y safle nesaf (o glwb cysylltiedig â FfCCFFI) yn cynrychioli Cymru.

**TREFN**

Mae crynodeb o'r rheolau sy'n cyd-fynd â rhai "England Rounders" ar gael ar wefan CFFI Cymru.

Gall timau gynnwys isafswm o 6 chwaraewyr ac uchafswm o 15 chwaraewyr. Bydd 9 chwaraewr ar y cae ar yr un pryd.

Os yn dîm cymysg, dylai gynnwys dim mwy na 5 bachgen a dim llai na 2.

Bydd un tîm yn batïo a'r tîm arall yn maesu a bowlio.

Bydd y bowliwr yn bowlio'r bêl i'r batiwr sydd yn bwrw'r bêl i unrhyw le ar y maes Rownderi. Wedyn, bydd y batiwr yn rhedeg o amgylch cymaint o byst ag sydd yn bosib cyn i'r maeswr ddychwelyd gyda'r bêl i gyffwrdd y postyn bydd y batiwr yn rhedeg tuag ato.

Os bydd y batiwr yn cyrraedd yr 2il neu'r 3ydd postyn mewn un rhediad, bydd y tîm sy'n batïo yn ennill ½ Rownder. Os bydd y batiwr yn cyrraedd y 4ydd postyn mewn un rhediad, bydd y tîm sy'n batïo yn ennill Rownder.

Gall batiwr gael ei alw allan os bydd un o'r tîm sy'n maesu yn dal y bêl ar ôl i'r batiwr ei fwrw a chyn iddi gyffwrdd y llawr neu wrth gyffwrdd postyn â'r bêl cyn i'r batiwr ei gyrraedd.

Yn rownd derfynol CFFI Cymru, bydd gemau yn cynnwys o leiaf un batiad i bob tîm, a hyd at 20 pêl dda.

Gall eilyddio digwydd rhwng gemau ond nid yng nghanol gem. Gall yr eilyddion ailymddangos yn un o'r gemau dilynol os dewisir.

**GWOBRAU** - Cyflwynir tlws i'r tîm buddugol.

**SUBSTITUTION**

If seven (7) or more of the original squad members are unable to go forward to subsequent rounds, then the next highest placed team (affiliated to NFYFC) will represent Wales.

**PROCEDURE**

A summary of the rules in line with England Rounders can be found on the Wales YFC Website.

Teams can be a minimum of 6 players and a maximum of 15 players. 9 players will be on the field at any one time.

If a mixed team – there should be no more than 5 male players and no fewer than 2.

One team bats while the other team fields and bowls.

The bowler bowls the ball to the batter who hits the ball anywhere on the Rounders pitch, the batter then runs to as many posts as possible before the fielders return the ball to touch the post the batter is heading for.

If the batter reaches the 2nd or 3rd post in one hit, the batting team scores ½ Rounder. If the batter reaches 4th post in one hit, the batting team scores a Rounder.

A batter can be out if the fielding team catch the ball hit by the batter before it touches the ground or by touching the post the batter is heading to with the ball before the batter reaches it.

At the Wales Final, matches will consist of a minimum of one innings per team, to a maximum of 20 good balls.

Substitutions may be made between games but not during an innings. Substitutes may return to play in subsequent games.

**AWARDS**

A trophy will be presented to the winning team.

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU  
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

**RHEOLAU 2016-2017 RULES**

**DIWRNOD CHWARAEON | SPORTS DAY**



**CYFFREDINOL** - Ni fydd CFFI Cymru yn gyfrifol am unrhyw gostau a ddaw i ran y cystadleuwyr nac am drefniadau llety.

Bydd penderfyniad y Dyfarnwr yn derfynol.

Mae CFFI Cymru yn cadw'r hawl i addasu neu hepgor unrhyw ran o'r rheolau hyn.

**SYLWER:**

Bydd pwyntiau'r gystadleuaeth hon yn cyfrif tuag at Dlws Iau Beynon Thomas.

**GENERAL** - Wales YFC will not be responsible for any expenses incurred by competitors nor for arrangements for accommodation.

The umpires' decision is final.

Wales YFC reserves the right to amend or cancel any of the foregoing rules.

**NOTE:**

This competition will carry points towards the Beynon Thomas Junior Trophy.

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU  
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

**RHEOLAU 2016-2017 RULES**

**DIWRNOD CHWARAEON | SPORTS DAY**



**\* Nodwch os gwelwch yn dda bydd angen talu tâl ymgeisio o £25 cyn y 7fed o Fehefin. Ni chaniateir unrhyw ymgeisio hwyr. Dylai siciau fod yn daladwy i CFFI Cymru a byddwn yn ad-dalu'r £25 os bydd y tîm yn troi fyny i gystadlu.**

**\* Please note an entry fee of £25 to be paid by the 7th of June. No late entries will be accepted. Cheques should be made payable to Wales YFC and they will only be refunded if the team turns up to compete.**

**PÊL-DROED 5 BOB OCHR BECHGYN  
BOYS 5 A SIDE FOOTBALL**

**LLEOLIAD –**

Cynhelir y rownd derfynol mewn lleoliad sydd i'w gadarnhau ar y 25ain o Fehefin 2017.

**VENUE**

The Final will be held at a venue to be confirmed on Sunday, 25th June, 2017.

**CYNRYSIOLAETH**

Un tîm o bob Ffederasiwn Sirol i gystadlu yn rownd derfynol Cymru.

**REPRESENTATION**

Counties may enter one team for the Wales final.

**CYMHWYSTRA –**

Sgwad o 7 aelod, a bydd rhaid i bob un fod rhwng 16 a 26 mlwydd oed ar y 1 Medi 2016 (rhaid cadw at yr ystod oedran hwn). Mae hyn yn golygu bydd yr aelodau wedi cael eu pen-blwydd yn 16 erbyn 1 Medi 2016 a gall aelodau fod yn 27 ar ddiwrnod rownd derfynol Cymru.

**ELIGIBILITY –**

A squad of 7 members, all of whom must be aged between 16 years and over and 26 and under on 1st September 2016 (this age range must be adhered to). This means competitors have attained their 16th birthday on 1st September 2016 competition and may be 27 on the day of the Wales final.

Rhaid i bob cystadleuydd fod yn aelod llawn o glwb sy'n gysylltiedig â CFFI Cymru neu FfCCFFI.

All competitors must be full members of a YFC Club based in Wales and affiliated to either Wales YFC or NFYFC.

Bydd methu dangos cerdyn dilys (yn cynnwys llun) yn arwain at gosb ariannol o £10 yn ogystal â gwriad ar fâs data CFFI cyn cael caniatâd i gystadlu. Ni chaniateir i aelod gystadlu os nad yw ef/hi wedi'i restru fel aelod sydd wedi talu arian aelodaeth ac os na fydd yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth.

Competitors will be required to show their YFC Membership Cards. Failure to produce a valid membership card (will need photo) will result in a £10 penalty charge. Any member whose name is not listed as a current paid up member of the Federation and who cannot produce a membership card at the start of the competition will not be allowed to compete.

**EILYDDION**

Os na fydd 3 o'r tîm gwreiddiol yn gallu mynd ymlaen i'r rownd nesaf, bydd y tîm yn y safle nesaf (sy'n gysylltiedig â FfCCFFI) yn cynrychioli Cymru.

**SUBSTITUTION**

If 3 of the original team members are unable to go forward to subsequent rounds, then the next highest placed team (affiliated to NFYFC) will represent Wales.

**TREFN**

Yn rowndiau terfynol Cymru chwaraeir y gystadleuaeth tu allan ar Astroturf.

**PROCEDURE**

At the Wales YFC finals the competition will be played outside on Astroturf.

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU  
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

**RHEOLAU 2016-2017 RULES**

**DIWRNOD CHWARAEON | SPORTS DAY**



Ar gyfer cynghrair 5 pob ochr bydd pob tîm yn gallu cael 4 chwaraewr ac 1 gôl-geidwad ar y cae ar yr un pryd.

Mae gan dimau hawl i eilyddio yng nghanol gêm, pan fydd y bêl yn farw, â chaniatâd y dyfarnwr. Bydd rhaid i'r chwaraewr sy'n gadael fod oddi ar y maes cyn gall yr eilydd ddod ar y maes i chwarae. Gall yr eilyddion sydd newydd ddod ar y maes chwarae yn syth a gallant dderbyn y bêl. Rhaid i'r eilyddion a'r cyhoedd sefyll oddi ar y maes chwarae bob amser ac ni chaniateir iddynt gamu ar y cae ar unrhyw adeg.

Bydd y gêm yn cynnwys dau hanner cyfartal o 4 munud bob ochr ac 1 munud ar gyfer hanner amser ac i newid ochrau.

Bydd pwyntiau yn cael ei rhoi fel y ganlyn:

Ennill	3 phwynt
Cyfartal â sgôr	2 bwynt
Cyfartal di-sgôr	1 pwynt
Colli	0 pwynt

**Amser ychwanegol**

Os bydd y sgôr yn gyfartal yn y rownd derfynol neu'r rownd gynderfynol, chwaraeir dau funud ychwanegol bob ffordd. Mewn gemau cynghrair, ni fydd amser ychwanegol yn cael ei chwarae a bydd y pwyntiau priodol yn cael eu rhoi.

Os, bydd y sgôr yn dal yn gyfartal wedi amser ychwanegol, bydd y gêm yn cael ei phenderfynu â chiciau o'r smotyn.

Os bydd y sgôr yn dal yn gyfartal wedi 5 cic o'r smotyn, bydd ciciau o'r smotyn 'tranc sydyn' yn parhau nes methir cic. Dylai'r un 5 sydd wedi cymryd y ciciau o'r smotyn barhau i wneud hynny.

Ni all y timau newid eu gôl-geidwad fwy nag unwaith yn ystod y gêm. Cyn penderfynu newid gôl-geidwad, rhaid cael caniatâd y dyfarnwr.

**NI CHAIFF** unrhyw chwaraewr wisgo esgidiau â stÿds sgrïw neu lafnau. Rhaid gwisgo esgidiau hyfforddi, esgidiau meddal neu esgidiau astroturf. Pob chwaraewr i ddenyddio gwarchodwyr crimogau. Ni ddylid gwisgo unrhyw fath o emwaith i chwarae. Mae gan y dyfarnwr hawl i wrthod i rywun chwarae os na fydd ganddo'r esgidiau priodol, os na fydd ganddo warchodwyr crimogau, neu os bydd yn gwisgo

For 5 a side leagues each team may field 4 outfield players and a goalkeeper on the pitch at any one time.

Substitutions are unlimited during the game, can only be made when the ball is dead and only with the Referees consent. Outgoing substitutes must leave the field of play before the replacement enters the playing area. The oncoming players are active immediately and can receive the ball. Substitutes must stand outside the pitch perimeter and spectators must not enter the field of play under any circumstances.

The match will consist of two equal halves of 4 minutes with 1 minute for half time and a change of ends.

Points will be awarded as follows:

Win	3 points
Score Draw	2 points
No Score Draw	1 point
Lose	Nil

**Extra Time**

In the final and Semi-Finals, should the scores be equal at full-time, a further two minutes shall be played each way.

In league matches no extra time will be played and appropriate points will be awarded.

If, after extra time, the scores are still level that match will be decided by kicks from the penalty mark.

If, after 5 penalties the scores are still tied, sudden death penalties will continue until a penalty is missed. The same 5 penalty take should continue.

Teams may not change their goalkeeper more than once during the course of the game. A change of goalkeeper must be authorised by the referee.

NO screw in studded footwear or blades are permitted to be worn by any player. Only training shoes, moulded soles and astro boots may be worn. All players must wear shin pads. The wearing of any form of jewellery (including, without limitation, watches) is not permitted during play. Referees may refuse to allow players to play with inappropriate footwear, without shin pads and/or are wearing any form of jewellery.

The first half will begin with one team taking a



unrhyw fath o emwaith.

Bydd un tîm yn cicio o'r canol i ddechrau'r hanner cyntaf; bydd y tîm arall yn dechrau'r ail hanner trwy gicio o'r canol. Pan fydd gôl yn cael ei sgorio bydd y gêm yn cael ei hailddechrau â chic o'r canol gan tîm sydd wedi ildio'r gôl.

Dim ond y gôl-geidwad sy'n amddiffyn sydd â'r hawl i chwarae'r bêl tu fewn i'r cwrt cosbi a dim ond y gôl-geidwad sydd â'r hawl i gyffwrdd y bêl yn y cwrt cosbi.

Bydd chwaraewr allfaes sydd yn ceisio cael mantais wrth fynd i mewn i gwert cosbi ei dîm yn cael ei gosbi â chic cosb yn erbyn ei dîm ei hun.

Bydd chwaraewr allfaes sy'n mynd mewn i gwert cosbi y tîm arall yn cael ei gosbi. Bydd y gêm yn cael ei ailddechrau gan y gôl-geidwad.

Bydd gôl-geidwad sy'n ceisio cael mantais trwy adael ei gwert cosbi neu trwy chwarae'r bêl tu allan i'w gwert cosbi yn cael ei gosbi â chic gosb i'r tîm arall.

Rhaid i'r gôl-geidwad ailgychwyn chwarae'r bêl trwy rollo'r bêl allan o'i gwert cosbi â thafliad o dan y fraich. Os bydd y bêl yn cael ei dychwelyd mewn unrhyw ffordd arall bydd y tîm arall yn cael cic rydd 2 fetr tu allan i'r cwrt cosbi. Pan fydd chwaraewr yn derbyn y bêl gan y gôl-geidwad nid fydd hawl i ddychwelyd y bêl yn syth yn ôl i'r gôl-geidwad; rhaid i'r bêl fynd at aelod arall o'r un tîm neu wrthwynebydd yn gyntaf. Bydd cic rydd yn cael ei dyfarnu yn erbyn y tîm os bydd hyn yn digwydd, a bydd y gic yn digwydd o ble caiff y bêl ei dychwelyd i'r gôl-geidwad. Fodd bynnag, os bydd y dyfarnwr yn nodi fod chwaraewr sy'n dychwelyd y bêl i'r gôl-geidwad yn cael mantais, dyfernir cic o'r smotyn.

Ni all pêl gael ei chwarae yn uwch nag uchder y bwrdd cicio. Bydd cic rydd anuniongyrchol yn cael ei dyfarnu yn erbyn y chwaraewr olaf i gyffwrdd â'r bêl cyn iddi fynd yn uwch nag uchder y bwrdd cicio, beth bynnag fo bwriad y chwaraewr hwnnw.

Ni ellir penio'r bêl o gwbl, hyd yn oed os bydd yn ei nag uchder y bwrdd cicio. Bydd cic rydd yn cael ei dyfarnu os bydd hyn yn digwydd.

Os bydd y bêl yn gadael y maes oddi ar y

centre; the second half will begin with the other team taking a centre. After a goal has been scored the game will be re-started by the team who conceded the goal taking a centre.

Only the defending goalkeeper is allowed to play the ball inside the goal area and only he may handle the ball in this area.

An outfield player gaining or seeking to gain an advantage by entering his own goal area will have a penalty kick awarded against his team.

An outfield player entering his opponent's penalty area will be penalised. The game will be re-started from the goalkeeper.

A goalkeeper gaining or seeking to gain an advantage by leaving his area or by playing the ball when it is outside the area will have a penalty awarded against his team.

The goalkeeper must return the ball into play by rolling it out of his area with an under-arm bowling action. The ball is returned any other way a free-kick will be given to the opposition two metres outside the area. A teammate receiving the ball from the 'keeper may not return the ball directly to him - the ball must first be touched by another teammate or an opponent. A free kick will be awarded against the offending team from the place where the defending player returned the ball unless it is deemed by the Referee that a player returning the ball to the Goal-Keeper is gaining an advantage then a penalty will be awarded.

The ball must not be played above kick board height. An indirect free kick will be awarded against the last player to touch the ball before it goes above kick board height, regardless of intent.

The ball must never be played with the head even if it is below board height. A free kick will be awarded for infringement.

If the ball goes out of play off the goalkeeper, the game will be restarted by indirect free kick by the same goalkeeper.

A goal may be scored from any point within the field of play. The only exception is that goalkeepers may not score against their opponents (except in penalty shoot-outs). Goal keepers are not permitted to take penalties (except in penalty shoot-outs).





gôlgeidwad, bydd yr un gôl-geidwad yn ailddechrau'r gêm trwy gymryd cic rydd anuniongyrchol.

Gellir sgorio gôl o unrhyw ran o'r maes chwarae. Yr unig eithriad yw na all y gôl-geidwad sgorio yn erbyn y tîm arall (heblaw 'ciciau o'r smotyn' i orffen gêm). Nid yw'r gôl-geidwad yn gallu cymryd cic gosb o'r smotyn (heblaw ciciau o'r smotyn i orffen gêm).

Ni chaniateir llithr-dacl ar unrhyw adeg. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn drosedd ac yn arwain at ddyfarnu cic rydd i'r tîm arall.

Bydd ffowl broffesiynol yn cael ei chosbi a gall y chwaraewr euog gael ei ddisgyblu.

Bydd yr holl giciau rhydd yn uniongyrchol heblaw pan fydd y bêl yn mynd yn uwch nag uchder y bwrdd cicio, sy'n arwain at gic rydd anuniongyrchol.

Rhaid i'r gwrthwynebwyr fod o leiaf dau fetr o ble caiff y gic rydd ei chymryd. Os nad yw'r gwrthwynebwyr yn dilyn y rheol dau fetr gall y gic cael ei symud ymlaen un metr. Os dyfernir cic rydd yn y cwrt cosbi neu yn agos ato, gall y gic gael ei symud hyd at ddau fetr yn ôl i ganiatáu i'r amddiffynwyr fod dau fetr oddi wrth y bêl.

Rhaid i'r gôl-geidwad fod ar y llinell gôl pan fydd cic gosb o'r smotyn yn cael ei chymryd. Gall chwaraewyr gymryd un cam ymlaen yn unig wrth gicio o'r smotyn.

Mae penderfyniadau'r dyfarnwr ynghylch materion ar y maes chwarae yn derfynol, ac ni chaniateir trafod y penderfyniadau ar y maes chwarae nac oddi ar y maes.

Gall chwaraewyr gael eu danfon i'r 'gell gosb' yn dibynnu ar y drosedd ac ar benderfyniad y dyfarnwr. Byddant yn treulio dau funud yn y 'gell gosb', a dangosir cerdyn glas i ddynodi hyn. Gall chwaraewyr fynd i'r 'gell gosb' unwaith yn unig mewn gêm, ac os byddant yn troseddu'r ail waith byddant yn cael cerdyn coch ac yn cael eu gwahardd o weddill y gêm.

Os bydd chwaraewr yn cael cerdyn goch pan fydd oddi ar y cae (am gamymddwyn wrth ymyl y cae), bydd rhaid i'w tîm golli un o'r chwaraewyr sydd ar y maes.

No slide tackles are allowed. Infringement of this rule will lead to a free kick being awarded against the offending players' team.

Professional fouls will be penalised with a penalty and the guilty player may face disciplinary action.

All free kicks will be direct with the exception of over board height which is deemed in-direct.

Opposition players must be at least two metres from where any free-kick is taken. If opposing players do not retreat the required two meters the kick may be moved forward one metre. If a free kick is awarded on or near the goal area it can be moved up to two metres backwards to allow defenders to be two metres from the ball.

The Goal keeper must be on the goal line when a penalty is being taken. Players may only take one step whilst taking a penalty.

The Referees decision on all on-field matters is final and no discussions will be entered into either on or off the pitch.

Players may be sent to the 'sin bin' at the referee's discretion depending on the offence. The duration of the sin bin will be 2 minutes for which a blue card will be shown. A player may only be sin binned once per game as a second offence would involve a second blue card which would automatically be followed by a red card and a sending off.

If a player is given a red card whilst off the field of play (for unacceptable conduct on the sideline), the team must correspondingly reduce the number of players on the field.

Referees must be treated with respect from all teams. Teams found guilty of abusing Referees will be removed.

The referee's decision is final.

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU  
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

**RHEOLAU 2016-2017 RULES**

**DIWRNOD CHWARAEON | SPORTS DAY**



Rhaid i ddyfarnwyr gael eu trin â pharch gan yr holl dimau. Bydd y timau hynny sy'n ymddwyn yn amharchus tuag at y dyfarnwr yn cael eu gwahardd.

Mae penderfyniad y dyfarnwr yn derfynol.

**GWOBRAU** - Bydd y tîm buddugol yn cael gwobr. Cyflwynir tystysgrifau CFFI Cymru i'r tîm buddugol.

**CYFFREDINOL** - Ni fydd CFFI Cymru yn gyfrifol am unrhyw gostau a ddaw i ran y cystadleuwyr nac am drefniadau llety.

Mae CFFI Cymru yn cadw'r hawl i addasu neu hepgor unrhyw rai o'r rheolau hyn.

**AWARDS**

An trophy will be presented to the winning team. Wales YFC certificates will be presented to the winning team.

**GENERAL**

Wales YFC will not be responsible for any expenses incurred by competitors nor for arrangements for accommodation.

Wales YFC reserves the right to amend or cancel any of the foregoing rules.



**\* Nodwch os gwelwch yn dda bydd angen talu tâl ymgeisio o £25 cyn y 7fed o Fehefin. Ni chaniateir unrhyw ymgeisio hwyr. Dylai sicciau fod yn daladwy i CFFI Cymru a byddwn yn ad-dalu'r £25 os bydd y tîm yn troi fyny i gystadlu.**

**\* Please note an entry fee of £25 to be paid by the 7th of June. No late entries will be accepted. Cheques should be made payable to Wales YFC and they will only be refunded if the team turns up to compete.**

### **PÊL-RWYD MERCHED** **LADIES NETBALL**

#### **LLEOLIAD**

Cynhelir y Rownd Derfynol mewn lleoliad sydd i'w gadarnhau, ddydd Sul 25 Mehefin 2017.

#### **CYNYRCHIOLAETH**

Un tîm o bob Ffederasiwn Sirol i gystadlu yn rownd derfynol Cymru.

#### **CYMHWYSTRA**

Sgwad o 9 aelod, a bydd 7 ohonynt ar y cwrt ar y tro. Bydd rhaid i bob chwaraewr fod rhwng 16 a 26 mlwydd oed ar 1 Medi 2016 (rhaid cadw at yr ystod oedran hwn). Mae hyn yn golygu y bydd yr aelodau wedi cael eu pen-blwydd yn 16 ar 1 Medi 2016 a gall aelodau fod yn 27 ar ddiwrnod y rownd derfynol genedlaethol.

Rhaid i bob cystadleuydd fod yn aelodau llawn o Glwb CFFI yng Nghymru sy'n gysylltiedig â CFFI Cymru neu FfCCFFI.

Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth.

Bydd methu dangos cerdyn aelodaeth dilys (â llun) yn arwain at gosb o £10. Ni chaniateir i aelodau gystadlu os nad yw eu henwau ar y rhestr o'r sawl sydd wedi talu i fod yn aelod o'r Ffederasiwn ac os na fyddant yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadluaeth.

**EILYDDION** - Os na fydd 4 o'r tîm gwreiddiol yn gallu mynd ymlaen i'r rownd nesaf, bydd y tîm yn y safle nesaf (sy'n gysylltiedig â FfCCFFI) yn cynrychioli Cymru.

#### **TREFN**

Mae gan bob safle brif rôl i'w chwarae:

#### **VENUE**

The Final will be held at a venue to be confirmed on Sunday, 25th June, 2017.

#### **REPRESENTATION**

Counties may enter one team for the Wales final.

#### **ELIGIBILITY**

A squad of 9 members, 7 of those players must be on the court at any one time. All players must be aged between 16 years and over and 26 and under on 1st September 2016 (this age range must be adhered to). This means competitors have attained their 16th birthday on 1st September 2016 competition and may be 27 on the day of the Wales final.

All competitors must be full members of a YFC Club based in Wales and affiliated to either Wales YFC or NFYFC.

Competitors will be required to show their membership cards.

Failure to produce a valid membership card (with photo) will result in a £10 penalty charge. Any member whose name is not listed as a current paid up member of the Federation and who cannot produce a membership card at the start of the competition will not be allowed to compete.

**SUBSTITUTION** – If 4 of the original squad members are unable to go forward to subsequent rounds, then the next highest placed team (affiliated to NFYFC) will represent Wales.

#### **PROCEDURE**

Each position has a main role to play:



**Saethwr Gôl (GS)**

Sgorio goliau a gweithio o fewn ac oddi allan i'r cylch gyda'r Ymosodwr Gol.

**Ymosodwr Gôl (GA)**

Helpu a gweithio gyda'r Saethwr Gôl er mwyn sgorio goliau.

**Ymosodwr Asgell (WA)**

Cynorthwyo'r chwaraewyr sydd yn y cylch i greu cyfleoedd iddyn nhw saethu.

**Canolwr (C)** - Pasio o'r canol a chysylltu'r gwarchodwyr â'r ymosodwyr.

**Gwarchodwr Asgell (WD)**

Edrych am ryng-gipiadau ac atal yr Ymosodwr Asgell rhag rhoi'r bêl yn y cylch.


**Gwarchodwr Gôl (GD)**

Ceisio ennill y bêl a lleihau effeithiolrwydd yr Ymosodwr Gôl.

**Ymosodwr Gôl (GK)**

Gweithio gyda'r Gwarchodwr Gôl ac atal y Saethwr Gôl rhag sgorio.

Mae gan bob chwaraewr ran benodol o'r cwrt i chwarae ynddi:



**Goal Shooter (GS)**

To score goals and to work in and around the circle with the GA.

**Goal Attack (GA)**

To feed and work with GS and to score goals.

**Wing Attack (WA)**

To feed the circle players giving them shooting opportunities.

**Centre (C)**

To take the Centre Pass and to link the defence and the attack.

**Wing Defence (WD)**

To look for interceptions and to prevent the WA from feeding the circle.


**Goal Defence (GD)**

To win the ball and reduce the effectiveness of the GA.

**Goal Attack (GK)**

To work with the GD and to prevent the GS from scoring goals.

Each playing position has a specific area of the court in which to play:



Saethwr Gôl	GS	Rhan 1,2
Ymosodwr Gôl	GA	Rhan 1,2,3
Ymosodwr Asgell	WA	Rhan 2, 3
Canolwr	C	Rhan 2,3,4
Gwarchodwr Asgell	WD	Rhan 3,4
Gwarchodwr Gôl	GD	Rhan 3,4,5
Ymosodwr Gôl	GK	Rhan 4,5

Goal Shooter	GS	Area 1,2
Goal Attack	GA	Area 1,2,3
Wing Attack	WA	Area 2, 3
Centre	C	Area 2,3,4
Wing Defence	WD	Area 3,4
Goal Defence	GD	Area 3,4,5
Goal Keeper	GK	Area 4,5

**Dechrau neu aildechrau'r Gêm**

Bydd y pas cyntaf yn cael ei gymryd bob yn ail gan y chwaraewr sy'n chwarae Canolwr, ar ôl i



gôl gael ei sgorio. Rhaid i'r chwaraewyr oll ddechrau yn nhraean y gôl ar wahân i'r ddau Ganolwr. Bydd y canolwr sydd â'r bêl yn dechrau â naill ai un neu dwy droed yn y Cylch Canol (os ar un droed, ni ddylai'r droed arall gyffwrdd y llawr oddi allan i'r cylch canol) a rhaid cadw at y rheolau ynghylch traed ar ôl i'r chwiban gael ei chwythu. Gall y Canolwr sy'n gwrthwynebu fod unrhyw le yn nhraean y canol a gall symud. Rhaid i'r pas cyntaf gael ei ddal neu ei gyffwrdd gan chwaraewr sydd yn y traean canol neu'n glanio yno neu'n neidio o sefyll yn y traean Canol.

### **Chwarae'r Bêl**

- Rhaid i chwaraewr sy'n dal y bêl naill ai chwarae neu saethu am gôl o fewn tair eiliad.
- Gall y chwaraewr fownsio neu'r fatio'r bêl unwaith er mwyn cael rheolaeth ohonni.
- Ar ôl gollwng y bêl, rhaid i'r bêl gael ei chyffwrdd gan chwaraewr arall. Os bydd gan chwaraewr reolaeth o'r bêl, ond bydd yn ei gollwng, ni all ei chodi. Dyna beth yw ailchwarae.
- Rhaid bod lle am drydydd chwaraewr rhwng dwylo'r taflwr a'r daliwr.
- Rhaid i chwaraewr sydd ar y llawr sefyll cyn gallu chwarae'r bêl.

### **Troedwaith**

Wedi dal y bêl gall chwaraewr sefyll neu lanio ar:

- Un droed – tra bydd y droed lanio ar y llawr, gellir symud y droed arall i unrhyw le, unrhyw nifer o weithiau. Gellir troelli ar y droed lanio os dymunir.
- Pan fydd y droed lanio wedi codi o'r llawr, ni all gyffwrdd cyffwrdd y llawr eto nes caiff y bêl ei drau.
- Dwy droed (ar yr un pryd) – pan fydd un droed wedi symud, ystyrir y droed arall yn droed lanio, fel yr uchod.
- Ni chaniateir hopian neu lusgo'r troed.

### **Sgorio Gôl**

Dim ond GS neu GA sydd yn medru sgorio - rhaid iddynt fod yn llawn yn y cylch pan fyddant yn derbyn y bêl er mwyn saethu am gôl.

### **Taflu'r bêl i fyny**

Dyfernir hyn am droseddau sy'n digwydd ar yr un pryd. Bydd y ddau chwaraewr yn wynebu ei gilydd wrth eu hochrau saethu eu hunain â'u dwylo wrth eu hochr ochr a bydd y dyfarnwr yn

### **Starting or Restarting the Game**

Centre passes are taken alternately by the player undertaking the Centre Role, after a goal has been scored. All players must start in the goal thirds except the two Centre Roles. The Centre with the ball starts with either one or both feet in the Centre Circle (if on one foot then the other must not have contact with the ground outside the Centre Circle) and must obey the footwork rule after the whistle has been blown. The opposing Centre stands anywhere within the Centre Third and is free to move. The Centre pass must be caught or touched by a player in or landing in or jumping from a stance in the Centre third.

### **Playing the Ball**

- A player who has caught or the ball should play it or shoot for goal within three seconds.
- A player may bounce or bat the ball once to gain control.
- Once released, the ball must next be touched by another player. If player has control of the ball and then drops it, they must not pick it back up. This is replaying.
- There must be room for a third player between hands of thrower and catcher.
- A player on the ground must stand up before playing ball.

### **Footwork**

Having caught the ball, a player may land or stand on:

- One foot - while the landing foot remains grounded, the second foot may be moved anywhere any number of times, pivoting on the landing foot if desired.
- Once the landing foot is lifted, it must not be re-grounded until the ball is released.
- Two feet (simultaneously) - once one foot is moved, the other is considered to be the landing foot, as above.
- Hopping or dragging the landing foot is not allowed.

### **Scoring a Goal**

Only GS or GA can score - they must be completely within the circle when the ball is received in order to shoot for goal.

### **Toss up**

This is administered for all simultaneous infringements. The two players stand facing each other at their own shooting ends with hands by their



taflu'r bêl i fyny ddim mwy na 600cm (2tr) pan chwythir y chwiban.

Bydd PAS RHYDD yn cael ei ddyfarnu am dorri unrhyw un o'r rheolau uchod. Gall y pas cosb gael ei gymryd gan unrhyw chwaraewr sydd â hawl i fod yn y rhan benodol honno, cyn gynted ag y bydd yn sefyll yn llonydd. Os byddwch yn penderfynu byddai'n well i chwaraewr arall basio'r bêl, dylid rhoi'r bêl ar y llawr - a pheidio pasio'r bêl oherwydd byddai hyn yn cyfrif fel pas. (Ni all chwaraewr saethu i mewn i'r cylch saethu o bas rhydd).

### **Rhwystyr**

Chwaraewr sydd â'r bêl: dylai troed agosaf yr amddiffynnydd fod 900cm (3tr) oddi wrth troed lano'r chwaraewr sydd â'r bêl, neu'r lle cyn ble bydd y droed gyntaf wedi glanio os bydd wedi'i chodi. Gall yr amddiffynwr neidio i amddiffyn y bêl o'r pellter 900cm (3tr) hwn.

Chwaraewr heb y bêl: gall yr amddiffynwyr fod yn agos, ond nid yn cyffwrdd, os na fydd ymdrech yn cael ei wneud i amddiffyn y bêl ac os na fyddir yn ymyrryd ag ymdrechion y gwrthwynebwyr i saethu. Dylid breichiau fod mewn ffordd naturiol ac nid wedi'u hymestyn ac ni ddylai unrhyw ddarn arall o'r corff gael ei ddefnyddio i rwystro unrhyw chwaraewr.

Dychrynu: mae dyrchrynu o unrhyw fath yn cael ei ystyried yn ymyrraeth. E.e. marcio llygaid y gwrthwynebwyr yn lle'r bêl.

Nid oes rhaid i chwaraewr symud er mwyn gadael i'r gwrthwynebwyr redeg yn rhydd, ond ni chaniateir chwarae peryglus, e.e. symud mewn i fan glanio rhywun sydd eisoes wedi neidio neu gamu i mewn i lwybr chwaraewr arall sydd eisoes yn symud.

### **Cysylltiad**

Ni all unrhyw chwaraewr gyffwrdd unrhyw chwaraewr arall, naill ai yn fwiadol neu'n anfwriadol, mewn modd sy'n ymyrryd â'r chwarae neu sy'n gwneud i gysylltiad ddiogwydd.

Bydd Pas Cosb (neu Bas Cosb/Saethu Cosb, os yn y cylch saethu) yn cael ei ddyfranu am y trosedd uchod, a chymerir y gosb ble bynnag digwyddodd y drosedd. Rhaid i'r troseddwr beidio chwarae (yn gorfforol ac yn llafar) gan sefyll wrth ymyl y taflwr nes bydd wedi pasio neu

sides and the umpire flicks the ball upwards not more than 600cm (2ft) in the air as the whistle is blown.

A FREE PASS is awarded for infringement of any of the preceding rules. It may be taken by any player allowed in that area, as soon as they have taken up a stationary position. If you decide that another player would be better taking it, you must place the ball back on the floor- not hand over the ball as this counts as a pass. (A player may not shoot from a free pass in the shooting circle).

### **Obstruction**

Player with ball: the nearer foot of the defender must be 900cm (3ft) feet from the landing foot of the player with the ball, or the spot where the first foot had landed if one has been lifted. The defender may jump to intercept or defend the ball from this 900cm (3ft) feet distance.

Player without ball: the defender may be close, but not touching, providing that no effort is made to intercept or defend the ball and there is no interference with the opponents throwing or shooting action. Arms must be in a natural position, not outstretched, and no other part of the body or legs may be used to hamper an opponent.

Intimidation: of any kind, is classed as obstruction. E.g. marking opponent's eyes instead of ball.

A standing player is not compelled to move to allow an opponent a free run, but dangerous play must be discouraged, e.g. moving into the landing space of a player already in the air or stepping late into the path of a moving player.

### **Contact**

No player may contact an opponent, either accidentally or deliberately, in such a way that interferes with the play of that opponent or causes contact to occur.

A Penalty Pass (or Penalty Pass/Penalty Shot if in the shooting circle) is awarded for the above infringements taken from where the infringement occurred. The offending player must stand out of play (physically and verbally) beside the thrower until the pass or shot has been taken. Any opposing player allowed in that area may take the penalty. If the penalty is taken without the offending player stood out of play, the penalty is not set and it is a turned over ball.



saethu'r bêl. Bydd unrhyw wrthwynebydd sy'n gallu bod yn y rhan benodol honno o'r cwrt yn cael cymryd y gosb. Os bydd y gosb yn cael ei chymryd heb i'r troseddwr neilltuo o'r chwarae, ni chaniateir y gosb a throsglwyddir meddiant i'r tîm arall.

### **Rhannau o'r Cwrt**

**Camsefyll:** Chwaraewr sy'n chwarae allan o'i ran o'r cwrt â'r bêl yn ei feddiant neu heb y bêl (os bydd chwaraewr ar linell ystyrir ei fod o fewn y naill ran neu'r llall).

**Dros Draean:** Ni all y bêl cael ei thaflu dros ddwy linell heb gael ei chyffwrdd gan chwaraewr arall. Bydd pas cosb yn cael ei gymryd o'r fan ble croesodd y bêl yr ail linell.

### **Allan o'r cwrt**

Bydd y bêl allan pan fydd yn cyffwrdd ag unrhyw beth tu allan i'r cwrt (ar wahân i'r pyst). Dychwelir y bêl i'r gêm trwy daflu i mewn o'r fan ble gadawodd y bêl y cwrt. Dylai'r chwaraewr sefyll hanner troedfedd o'r llinell, a bydd rhaid i'r bêl gael ei thaflu i mewn o fewn tair eiliad. Os bydd traed y chwaraewr yn cyffwrdd y llinell, ystyrir hyn yn dafliad ffowl. Rhaid i'r holl chwaraewyr fod ar y cwrt cyn i'r bêl cael ei thaflu.

### **Gwisg**

Rhaid i bob aelod o'r tîm wisgo'r un wisg a bibs sy'n nodi eu safle chwarae. Dylai tîm sicrhau fod ganddynt bibs sbâr mewn lliw gwahanol hefyd.

### **Eilyddion**

Gall eilyddio ddigwydd os bydd un o'r chwaraewyr yn cael niwed ar unrhyw adeg yn ystod y gêm. Ni all y chwaraewr sy'n gadael y cwrt ar ôl cael anaf chwarae gweddill y gêm honno, ond caiff chwarae gemau dilynol. Gall eilyddio tactegol ddigwydd ar hanner amser neu ar ddiwedd gêm. Rhaid i'r sawl sy'n cael anaf alw "amser" er mwyn i'r dyfarnwr stopio'r cloc. Os na fydd yn gwneud hynny, bydd y gêm yn parhau.

NI chaniateir unrhyw fath o emwaith nac ewinedd hir.

Bydd yr holl gemau yn cael ey chwarae yn unol â rheolau Cymdeithasau Pêl-rwyd Cymru a Lloegr.

Yn rownd derfynol Cymru, bydd y cwrt a ddefnyddir yn un maint llawn, a dylid defnyddio

### **Court Areas**

#### **Offside**

Player moving out of their own area, with or without ball (on a line counts as within either area).

#### **Over a Third**

Ball may not be thrown over two transverse lines without being touched. A free pass shall be taken from the area where the ball crossed the second transverse line.

#### **Out of Court**

Ball is out of court when it contacts anything outside the court area (not the goalpost). The ball is returned into play by a Throw-In taken from a point outside the line where the ball left the court. The player stands outside the court within ½ foot to the line, and the ball must be thrown onto the court within three seconds. If toes are touching the line, this is a foul throw. All players must be on court before the ball is thrown.

#### **Dress**

All members of the team to wear matching dress and bibs indicating playing position. A set of spare bibs must also be available of different colours, which is to be supplied by the team.

#### **Replacements**

Replacements may be made in the case of injury at any time during a game. A player who is taken off injured and replaced may take no further part in that game, but may play in a subsequent game. Tactical substitution may only be made at full or half time. The person injured must call time so the umpire can stop the watch, otherwise the game plays on.

Please note that jewellery of any description or long nails are NOT allowed.

All matches will be played under the Rules laid down by England Netball and Welsh Netball.

At the Wales final a full sized court will be used, size 5 netball and posts to be at 2.74m (9ft).

At the Wales final each game will last for a minimum of 7 minutes each way with a direct change of ends after the 7 minutes. Substitutions may only occur during this half time change of ends.

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU  
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

**RHEOLAU 2016-2017 RULES**

**DIWRNOD CHWARAEON | SPORTS DAY**



pêl-rwyd maint 5 a physt sy'n mesur 2.74m (9tr).

Yn rownd derfynol Cymru bydd pob gem yn para 7 munud bob ffordd a newidir ochrau yn syth ar ôl i'r 7 munud cyntaf ddod i ben. Gall eilyddio ddigwydd pan newidir ochrau yn ystod hanner amser yn unig.

Y tîm sy'n sgorio'r nifer fwyaf o bwyntiau fydd yr enillydd. Bydd gêm yn gyfartal os bydd y ddau dîm wedi sgorio'r un nifer bwyntiau erbyn diwedd y gêm.

Dyfernir y pwyntiau canlynol mewn gemau cynghrair: Ennill 3, Cyfartal 2, Colli 1.

**GWOBRAU**

Cyflwynir tlws i'r tîm buddugol.

**CYFFREDINOL** - Ni fydd CFFI Cymru yn gyfrifol am unrhyw gostau a ddaw i ran cystadleuwyr nac am drefniadau llety.

Mae penderfyniad y dyfarnwr yn derfynol.

Mae CFFI Cymru yn cadw'r hawl i addasu neu hepgor unrhyw rai o'r rheolau hyn.

The winner is determined by the team scoring the most points. A draw will be awarded if both teams have scored the same number of points at the end of the game.

League points will be awarded as follows: Win 3, Draw 2, Loss 1.

**AWARDS**

A trophy will be presented to the winning team.

**GENERAL** - Wales YFC will not be responsible for any expenses incurred by competitors nor for arrangements for accommodation

The umpire's decision is final.

Wales YFC reserves the right to amend or cancel any of the foregoing rules.

**BYDD CHWARAEON CFFI CYMRU YN CAEL EU DEWIS YN DILYN ADBORTH GAN Y  
GWEITHGOR CHWARAEON  
WALES YFC SPORTS WILL BE SET FOLLOWING FEEDBACK FROM THE SPORTS  
WORKING GROUP.**